

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Addysgu
Powys, IDH Crucywel**

13 Awst 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru	6
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	9
	Ansawdd yr Amgylchedd.....	10
6.	Y Camau Nesaf.....	12
	Atodiad A.....	13

1. Cyflwyniad

Ar 13 Tachwedd 2015, cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dilynol o IDH Crucywel yn 2 Bank Buildings, Stryd Beaufort, Crucywel, Powys, NP8 1AD, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ystyried ac adolygu'r meysydd canlynol:

- Cyflenwi Safonau Iechyd a Gofal
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o bractisau deintyddol cyffredinol yn ceisio sefydlu pa mor dda mae practisau yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal.¹ Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio

¹ <http://www.wales.nhs.uk/governance-emanual/hafan>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd unrhyw bryderon a welir yn ystod ymweliad dilynol sy'n parhau i fod angen eu gwella yn cael eu hystyried dan broses uwchgyfeirio AGIC.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae IDH Crucywel yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Crucywel ym Mhowys. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys.

Mae IDH Crucywel yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau ddeintydd, dwy nyrs ddeintyddol, hylenydd a derbynnydd, ac mae'n rhannu rheolwr practis â phractis IDH arall sydd yn y cyffiniau.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol.

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut roedd IDH yn bodloni'r safonau gofal a welir yn nogfen 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru'.

Yn gyffredinol, cawsom fod amryw o welliannau wedi'u gwneud ers ein harolygiad diwethaf, ac roedd hyn wedi gwella safonau'r gwasanaeth a ddarperir ar y cyfan. Mae dal angen gwella rhai meysydd, ond dynoda'r dystiolaeth a ganfuwyd gennym fod y newidiadau yn cael eu goruchwyllo gan reolwr practis brwdfrydig sy'n parhau i yrru gwelliannau i'r gwasanaeth. Rhoddwyd digon o sicrwydd inni, felly, bod modd cyflawni'r gwelliannau sy'n weddill.

Pan wnaethom ymweld ag IDH Crucywel ym mis Tachwedd 2014, roedd rheolwr y practis wedi bod yn ei swydd ers oddeutu tri mis. Mae'n rheolwr practis profiadol, ond mae ganddi ddwy rôl, sef rheoli'r practis hwn a rheoli practis IDH arall. Felly, gwnaethom fynegi pryderon ynglŷn â'i gallu i ddatrys y pryderon a nodwyd gennym. Yn yr arolygiad dilynol hwn, gall AGIC adrodd yn gadarnhaol ar y camau a wnaed gan IDH i sicrhau bod digon o amser rheoli ar gael. O ganlyniad i hyn, cawsom ddigon o sicrwydd bod rheolaeth ragweithiol ac ymroddedig ar waith ar y safle, a gwelsom dystiolaeth bod rheolwr y practis wedi bod yn gydwbodol a thrylwyr yn ei dull o ymdrin ag anawsterau sydd wedi codi.

Gwnaed gwelliannau sylweddol i adeiledd mewnol y safle ers ein hymweliad arolygu gwreiddiol ym mis Tachwedd 2014. Gwnaethom nodi bod llawr newydd wedi'i osod drwyddo draw i lawr llawr. Roedd gwaith atgyweirio brys wedi gwella'r ystafell ddadheintio yn sylweddol. Gwnaethom nodi hefyd bod y tair ystafell driniaeth yn lân a thaclus yn ôl pob golwg y tro hwn. Roedd rheolwr y practis yn parhau i weithio'n agos gyda gwasanaethau rheoli plâu i sicrhau bod problemau fermin yn cael eu rheoli a'u hatal mewn modd rhagweithiol.

5. Canfyddiadau

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Yn gyffredinol, cawsom fod amryw o welliannau wedi'u gwneud sydd wedi gwella safonau'r gwasanaeth a ddarperir ar y cyfan. Mae dal angen gwella rhai meysydd, ond dynoda'r dystiolaeth a ganfuwyd gennym fod y newidiadau yn cael eu goruchwyllo gan reolwr practis brwdfrydig sy'n parhau i yrru gwelliannau i'r gwasanaeth. Rhoddwyd digon o sicrwydd inni, felly, bod modd cyflawni'r gwelliannau sy'n weddill.

Nodwyd gennym o'r blaen bod ansawdd a chyflawnder y drefn o gofnodi yng nghofnodion y cleifion yn gyfnewidiol, ac fe'n siomwyd mai dyna'r sefyllfa o hyd adeg ein hymweliad dilynol. Gwelsom unwaith eto fod testun yng nghofnodion electronig cleifion yn cael ei ail-adrodd, ac er ein bod ni'n cydnabod bod hyn yn gallu bod yn angenrheidiol i arbed amser, roedd enghreifftiau o wneud hyn yn ddiotal. Gwelsom fod dyddiadau dod i ben ar gyfer meddyginiaeth (anesthetig lleol), er enghraifft, wedi cael eu copïo o gofnod o'r gorffennol, ac o ganlyniad cawsant eu cofnodi fel rhai oedd wedi pasio'u dyddiad terfyn. Mae cyfrifoldeb ar ddeintyddion unigol i sicrhau bod safon eu gwaith yn adlewyrchu'r canllawiau cyhoeddedig diweddaraf, a'r tro hwn daethom o hyd i ddwy enghraifft lle'r oedd y drefn o gadw cofnodion yn disgyn yn is na safonau cyhoeddedig o'r fath.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i IDH ystyried y pwyntiau uchod mewn perthynas â deintyddion unigol a'r drefn o gofnodi, a rhoi cynllun ysgrifenedig i AGIC o sut maen nhw'n bwriadu cynorthwyo rheolwr y practis i sicrhau bod rheoli perfformiad ac atebolrwydd y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn ddigonol. Dylai ansawdd y drefn o gadw cofnodion fod yn ganolbwynt brys ar gyfer rheoli perfformiad.

Yn ein hymweliad arolygu gwreiddiol, canfuom safonau gwael o ran cynnal a chadw a rheoli'r tair ystafell driniaeth o ddydd i ddydd. Ym mhob un o'r tair ystafell driniaeth, gwelsom feddyginiaethau a deunydd llenwadau a oedd wedi pasio'u dyddiad dod i ben. Yn ystod yr ymweliad hwn, gwnaethom nodi bod hyn wedi gwella'n sylweddol, a gwelsom fod y tair ystafell driniaeth yn lân yn ôl pob golwg, yn daclus, ac wedi'u cyflenwi'n dda. Ni ddaethom o hyd i dystiolaeth o unrhyw ddeunydd a oedd wedi pasio'i ddyddiad dod i ben.

Roedd ein canfyddiadau yn ystod yr ymweliad hwn yn dynodi bod system gadarn ar waith bellach er mwyn sicrhau bod offer deintyddol yn cael eu

sterileiddio a'u defnyddio o fewn yr amser priodol. Disgrifiodd rheolwr y practis y system inni, a hefyd gwelsom dystiolaeth amlwg o roi'r system ar waith.

Roedd ymweliad arolygu AGIC ym mis Tachwedd 2014 wedi dod ar draws ystafell ddadheintio a oedd yn ddifrifol brin o'r safonau derbyniol ar gyfer cynnal a chadw a glendid. Ar y pwynt yna, gwnaethom weithredu a gofyn i'r practis gau tan fod yr ystafell hon yn cael ei hadnewyddu. Dylid canmol ymateb prydlon IDH i hyn, oherwydd cymerwyd camau i unioni'r sefyllfa trannoeth ein hymweliad, ac ailwampwyd yr ystafell yn llwyr. Gwelsom yr ystafell, ar ei newydd wedd, yn cael ei defnyddio, a gwnaethom nodi'r gwelliant mawr a'r effaith gadarnhaol y byddai hyn wedi'i gael ar allu staff y practis i ddilyn a glynu wrth safonau uchel o ran atal a rheoli heintiau. Yn yr arolygiad hwn, rydym wedi argymhell, ers hynny, bod y protocolau ar gyfer dadheintio offer yn yr ystafell hon yn cael eu gwneud hyd yn oed yn fwy amlwg drwy nodi'r manau glân a'r manau budr, a labelu sinciau golchi dwylo yn eglur. Â bod staff locwm neu staff asiantaeth yn cael eu defnyddio, bydd yr arwyddion hyn yn helpu i leihau'r siawns y bydd camgymeriad yn digwydd, neu fod y broses yn cael ei gweithredu'n anghywir.

Gwnaethom fachu'r cyfle yn yr ymweliad dilynol hwn i drafod trefniadau ar gyfer sicrhau bod cyfarpar radiograffig y practis yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n ofalus, fel bod cleifion a staff yn cael eu hamddiffyn drwy gyfrwng yr arferion gwaith a ddefnyddir. Ar y cyfan, canfuom fod dealltwriaeth o bwysigrwydd ymdrin â'r peiriannau mewn modd diogel. Gwnaethom nodi bod angen gwella rhywfaint o'r ddogfennaeth sy'n dynodi sut mae defnyddio'r cyfarpar, fel bod cyfrifoldebau a chyfyngiadau pob unigolyn wedi'u nodi'n eglur. Roedd y deintyddion oedd yn gweithio yn y practis wedi derbyn hyfforddiant perthnasol, cyfredol i'w galluogi i ddefnyddio'r cyfarpar ac adrodd ar y canlyniadau a gynhyrchir ganddynt. Serch hynny, gwnaethom nodi nad oedd arweinydd, naill ai clinigol neu reoli, oedd â chyfrifoldeb cyffredinol, penodedig dros ddefnyddio cyfarpar radiograffig. Gwnaethom drafod hyn yn helaeth gyda rheolwr y practis, a oedd yn agored i dderbyn ein cyngor y dylid enwebu unigolyn arweiniol i sicrhau y glynir wrth y safonau a'r rheoliadau perthnasol parthed ymbelydredd. Gwnaethom argymhell hefyd y dylid cael cyngor pellach i sicrhau bod y gweithdrefnau presennol yn glynu wrth y canllawiau diweddaraf a'r arferion gorau.

Dan y rheoliadau, mae'n ofynnol i sefydliadau hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch pan ddefnyddir offer radiograffig ar y safle. Nid wyddai rheolwr y practis a wnaed yr hysbysiad hwn ai peidio, ac nid oedd modd dod o hyd i gofnodion hanesyddol i ddarparu tystiolaeth o hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mewn perthynas â defnyddio cyfarpar radiograffig:

- ***Rhaid i'r practis enwebu person arweiniol cymwys sydd wedi'i hyfforddi'n briodol er mwyn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n gyfredol, yn glynu wrth y rheoliadau, ac yn ystyried arferion gorau a chanllawiau a gyhoeddwyd.***
- ***Rhaid i'r practis sicrhau bod yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi cael ei hysbysu (neu'n derbyn tystiolaeth bod hyn wedi'i wneud eisoes) bod offer radiograffig yn cael ei ddefnyddio ar y safle. Pan gaiff hyn ei gwblhau, dylid anfon tystiolaeth ohono at AGIC.***

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Pan wnaethom ymweld ag IDH Crucywel ym mis Tachwedd 2014, roedd rheolwr y practis wedi bod yn ei swydd ers oddeutu tri mis. Mae'n rheolwr practis profiadol, ond mae ganddi ddwy rôl, sef rheoli'r practis hwn a rheoli practis IDH arall. Felly, gwnaethom fynegi pryderon ynglŷn â'i gallu i ddatrys y pryderon a nodwyd gennym. Yn yr arolygiad dilynol hwn, gall AGIC adrodd yn gadarnhaol ar y camau a wnaed gan IDH i sicrhau bod digon o amser rheoli ar gael. O ganlyniad i hyn, cawsom ddigon o sicrwydd bod rheolaeth ragweithiol ac ymroddedig ar waith ar y safle, a gwelsom dystiolaeth bod rheolwr y practis wedi bod yn gydwbybodol a thrylwyr yn ei dull o ymdrin ag anawsterau sydd wedi codi.

Rhoddwyd gwybod inni fod rheolwr y practis bellach yn cael cymorth i reoli'r ddau bractis deintyddol gan ddirprwy reolwr, sy'n dwyn y teitl Rheolwr Cynorthwyol y Practis. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi bod yn gam cadarnhaol iawn a oedd wedi'i galluogi i neilltuo'r amser a'r ymdrech sydd eu hangen i gyfrannu'n helaethach tuag at reoli IDH Crucywel. Dywedwyd wrthym hefyd ei fod wedi bod yn hawdd mynd at yr uwch-reolwyr yn ddiweddar, a'u bod yn gefnogol iawn, gan ymweld yn gyson ac ymateb yn brydlon i geisiadau am gyngor a chymorth.

Siaradodd rheolwr y practis yn hyderus am ei chyfrifoldeb i reoli perfformiad staff y practis a sicrhau eu bod nhw fel tîm yn parhau i ymdrechu i gyrraedd safonau uchel. Gwnaeth gais – a dderbyniwyd gan IDH – am ddull datblygu tîm a fydd yn cael ei gyflwyno'n fuan i holl staff y practis. Dylai hyn helpu i gynyddu sgiliau a gwybodaeth tîm y practis a'u galluogi i ddatblygu sgiliau hunanasesu a sicrwydd ansawdd sy'n hanfodol er mwyn gwella'n barhaus. Hefyd, siaradodd yn hyderus a chymwys am weithredu prosesau disgyblu'r cwmni, y bu'n rhaid eu rhoi ar waith o bryd i'w gilydd.

Gwnaethom nodi o'r blaen nad oedd systemau mewnol IDH ei hun ar gyfer archwilio a sicrhau ansawdd wedi bod yn ddigonol er mwyn nodi a mynd i'r afael â'r pryderon a'r safonau gwael a welsom yn ystod ein hymweliad gwreiddiol ym mis Tachwedd 2014. Yn yr ymweliad hwn, gwelsom dystiolaeth i awgrymu bod rheolwr y practis wedi bod yn rhagweithiol wrth sicrhau bod yr holl archwiliadau (megis cadw cofnodion a delweddau radiograffig) yn cael eu cwblhau fel y dylent. Gwnaethom rai awgrymiadau er mwyn gwella'r system o gofnodi gradd pob radiograff, a ddylai wneud y broses archwilio arferol yn haws.

Ansawdd yr Amgylchedd

Gwnaed gwelliannau sylweddol i adeiledd mewnol y safle ers ein hymweliad arolygu gwreiddiol ym mis Tachwedd 2014. Gwnaethom nodi bod llawr newydd wedi'i osod drwyddo draw i lawr llawr. Roedd gwaith atgyweirio brys wedi gwella'r ystafell ddadheintio yn sylweddol. Gwnaethom nodi hefyd bod y tair ystafell driniaeth yn lân a thaclus yn ôl pob golwg y tro hwn. Roedd rheolwr y practis yn parhau i weithio'n agos gyda gwasanaethau rheoli plâu i sicrhau bod problemau fermin yn cael eu rheoli a'u hatal mewn modd rhagweithiol.

Yn ôl pob golwg, roedd manau'r cleifion a'r manau nad oeddent i gleifion, drwyddo draw, o safon foddhaol o ran cynnal a chadw a glendid. Roedd hyn yn welliant amlwg o gymharu â chanfyddiadau ein hymweliad arolygu gwreiddiol.

Ni ddefnyddir un ystafell driniaeth bellach am fod y deintydd blaenorol wedi gadael ers i AGIC ymweld ddiwethaf. Fodd bynnag, dyma'r unig ystafell ar y llawr daear, felly fe'i defnyddir ar gyfer cleifion sy'n cael anhawster symud ac sy'n methu defnyddio'r grisiau i'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr cyntaf. Rydym wedi cynghori rheolwr y practis i sicrhau bod yr ystafell driniaeth hon yn cael ei harchwilio'n ddyddiol (yn yr un modd â'r ddwy ystafell driniaeth arall) er mwyn iddi gael ei pharatoi'n ddigonol ac yn ddiogel rhag ofn bod angen iddi gael ei defnyddio ar fyr rybudd.

Edrychom yn fanwl ar y camau a wnaed i reoli'r broblem fermin a ddynodwyd gennym yn ein hymweliad arolygu diwethaf. Roedd y dystiolaeth a welsom yn dangos bod rheolwr y practis wedi parhau i weithio'n ddiflino i gadw'r broblem hon dan reolaeth. Gwnaed hyn ar y cyd â gwasanaeth difa plâu proffesiynol.

Mae lleoliad y practis yng nghanol teras wedi parhau i beri rhai anawsterau. Rhennir mynediad i'r iard yng nghefn yr adeilad, a sylwom fod hon dal braidd yn anniben, yn arbennig o amgylch y man gwaredu â gwastraff. Gwnaethom drafod y peth yn helaeth â rheolwr y practis, ac roeddem yn fodlon ei bod hi wedi gwneud popeth o fewn ei gallu i ddatrys y broblem. Rydym wedi awgrymu bod y problemau sy'n parhau yn cael eu huwchgyfeirio ganddi o fewn IDH, er mwyn gallu mynd ar drywydd gwahanol megis sefydlu cyfrifoldebau'r landlord (mae'r eiddo ar brydles) a'r union ffiniau, i weld a oes ffyrdd eraill o oresgyn y problemau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai IDH edrych ar ffyrdd eraill o wella'r man y tu cefn i'r practis, a dylai gyflwyno cynllun gwella i AGIC yn amlinellu'r cynigion.

6. Y Camau Nesaf

O ganlyniad i'r arolygiad hwn, mae angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran Cyflawni Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru ac ansawdd yr amgylchedd. Mae'r manylion hyn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn IDH Crucywel yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: IDH Crucywel

Dyddiad yr arolygiad: 13 Awst 2015

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru				
6.	Rhaid i IDH ystyried y pwyntiau uchod mewn perthynas â deintyddion unigol a'r drefn o gofnodi, a rhoi cynllun ysgrifenedig i AGIC o sut maen nhw'n bwriadu cynorthwyo rheolwr y practis i sicrhau bod rheoli perfformiad ac atebolrwydd y deintyddion sy'n gweithio yn y practis yn ddigonol. Dylai ansawdd y drefn o gadw cofnodion fod yn ganolbwynt brys ar gyfer rheoli perfformiad.			
8.	Mewn perthynas â defnyddio cyfarpar radiograffig:			

Rhif y Dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	<p>Rhaid i'r practis enwebu person arweiniol cymwys sydd wedi'i hyfforddi'n briodol er mwyn cymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod yr holl bolisiâu a gweithdrefnau'n gyfredol, yn glynu wrth y rheoliadau, ac yn ystyried arferion gorau a chanllawiau a gyhoeddwyd.</p> <p>Rhaid i'r practis sicrhau bod yr Awdurdod Gweithredol lechyd a Diogelwch wedi cael ei hysbysu (neu'n derbyn tystiolaeth bod hyn wedi'i wneud eisoes) bod offer radiograffig yn cael ei ddefnyddio ar y safle. Pan gaiff hyn ei gwblhau, dylid anfon tystiolaeth ohono at AGIC.</p>			
Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Ni wnaed unrhyw argymhellion				
Ansawdd yr Amgylchedd				
11.	Dylai IDH edrych ar ffyrdd eraill o wella'r man y tu cefn i'r practis, a dylai gyflwyno cynllun gwella i AGIC yn amlinellu'r cynigion.			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad: